

# Codi llais

## Rhan A: Nodiadau'r Hyfforddwr

## Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol

Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

### 1 Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Dangosodd y preswylwyr (George, Ivy, eraill) ofn, gofid, ac awgrymu cam-drin.
- Awgrymodd Ivy fod arian wedi'i ddwyn; gwatwarwyd/cosbwyd ymddygiadau gofidus George.
- Gwrthododd y staff bryderon ("cymerwch yr hyn maen nhw'n ei ddweud gyda phinsied o halen").
- Rhaid clywed lleisiau preswylwyr waeth beth fo'u hanabledd

#### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Sut y mynegwyd lleisiau preswylwyr?
- Pa risgiau sy'n codi pan fydd staff yn diystyru pryderon oherwydd anabledd?

#### Gweithgaredd

**Chwarae rôl:** mae un cyfranogwr yn chwarae rhan preswyllydd, mae un arall yn ymateb yn briodol.

### 4 Myfyrdod Proffesiynol

- Roedd diffyg ymsefydlu/hyfforddiant yn gwneud Tracy yn ansicr.
- Roedd diwylliant sefydliadol yn normaleiddio arfer anniogel.
- Dylanwadodd Mike ar y ddeinameg: "cymwynasgar" i staff, camdriniol i breswylwyr.
- Myfyrdod: mae anghysur greddfól yn bwysig – peidiwch â'i ddiystyru.

#### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa risgiau sy'n codi o ganlyniad i ymsefydlu gwael?
- Sut gall myfyrio a goruchwyllo feithrin hyder i weithredu?

#### Gweithgaredd

**Ymarfer i barau:** rhannwch amser pan oeddech chi'n teimlo'n anghyfforddus yn y gwaith – sut wnaethoch chi ymddwyn?

### 2 Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Niwed emosiynol: cywilydd, ofn, colli ymddiriedaeth.
- Niwed corfforol: ataliaeth anniogel wedi'i ddefnyddio ar George.
- Niwed ariannol: amheuaeth o ladrad wrth Ivy.
- Niwed sefydliadol: diwylliant anniogel, cydgynllwynio ymhlith staff.

#### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa fathau o gam-drin sy'n amlwg (corfforol, emosiynol, ariannol, sefydliadol)?
- Sut mae cydgynllwynio yn gwaethygu niwed?

#### Gweithgaredd

**Mapio cam-drin:** rhestru tystiolaeth o dan wahanol gategorïau cam-drin.

### 5 Penbleth Moesegol ac Emosiynol

- Roedd Tracy yn ofni unigedd, colli sifftiau, dial.
- Tensiwn moesegol: teyrngarwch i gydweithwyr yn erbyn dyletswydd i breswylwyr.
- Effeithiau emosiynol: pryder, amheuaeth, ofn bod yn "anghywir".

#### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa ofnau sydd gan staff ynghylch chwythu'r chwiban?
- Sut gall sefydliadau leihau'r ofn hwn?

#### Gweithgaredd

**Dadl:** a yw'n anoddach siarad fel aelod staff newydd nag fel aelod profiadol?

### 3 Diogelu a dyletswydd gofal

- Mae'r ddyletswydd i ddiogelu yn berthnasol i bob aelod o staff, hyd yn oed staff newydd/iau.
- Cydnabu Tracy arfer gwael ond petrusodd oherwydd pwysau gan gymheiriaid.
- Ymatebodd y rheolwr ardal yn gywir: dilysodd y pryder, uwchgyfeiriwyd diogelu.
- Mae staff yn adrodd, nid yn ymchwilio – mae llwybrau chwythu'r chwiban yn eu hamddiffyn.

#### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth wnaeth atal Tracy rhag codi llais yn gynt?
- Beth ddylai rheolwyr ei wneud pan godir pryderon?

#### Gweithgaredd

**Trosglwyddiad ffug:** Mae Tracy yn adrodd pryder → Mae rheolwr cefnogol yn egluro'r camau nesaf.

### 6 Dysgu ymarferol

- Rhaid i ymsefydlu a hyfforddiant ragflaenu gwaith annibynnol.
- Mae lleisiau preswylwyr bob amser yn cyfrif, waeth beth fo'u hanabledd.
- Chwythu'r chwiban = dyletswydd broffesiynol, nid bradychu.
- Rhaid i reolwyr ymateb yn gefnogol ac yn dryloyw.
- Rhaid i ddiwylliant sefydliadol annog codi llais.

#### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth fyddai wedi digwydd pe bai Tracy wedi aros yn dawel?
- Pa brosesau sy'n atal ailddigwyddiad?

#### Gweithgaredd/chwarae rôl

"Beth fyddech chi'n ei wneud?": grwpiau'n penderfynu ar gamau gweithredu ar dri phwynt – ar ôl ataliaeth, ar ôl pryder ariannol Ivy, ar ôl diswyddo cydweithiwr.

## Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – diogelu oedolion; cam-drin sefydliadol.
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) – pryderon darparwyr, uwchgyfeirio honiadau.
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – hyfforddiant, dyletswyddau adrodd.
- Gofal Cymdeithasol Cymru – Cod Ymarfer Proffesiynol – dyletswydd broffesiynol i ddiogelu.
- Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 – amddiffyniadau chwythu'r chwiban.

# Codi llais

Rhan B: Taflen

Gwasanaeth  
Diogelu Cenedlaethol

Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## Nod

Annog staff i godi llais; cydnabod camdriniaeth sefydliadol; amddiffyn hawliau preswylwyr.

### Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Ofn, gofid, arian ar goll, ymddygiadau gofidus.
- Rhaid cymryd lleisiau o ddifrif er gwaethaf anabled.

### Myfyrddau proffesiynol

- Mae diffyg ymsefydlu/hyfforddiant yn gwanhau hyder.
- Rhaid i anghysur greddfoll sbarduno gweithredu.

### Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Achosodd cam-drin niwed emosiynol, corfforol, ariannol a sefydliadol.
- Roedd diwylliant anniogel yn gwaethgu'r risgiau.

### Penblethau moesegol ac emosiynol

- Ofnau staff: ynysu, dial, diogelwch swyddi.
- Cydbwysu teyrngarwch i gydweithwyr â dyletswydd i breswylwyr.

### Diogelu a dyletswydd gofal

- Mae'r holl staff yn rhannu'r ddyletswydd i ddiogelu.
- Adroddwch am bryderon ar unwaith – peidiwch ag ymchwilio.
- Rhaid i reolwyr ymateb yn gefnogol ac uwchgyfeirio'r mater.

### Dysgu ymarferol

1. Cydnabod pob math o gam-drin.
2. Codi llais ar unwaith – defnyddio polisi chwythu'r chwiban.
3. Rheolwyr yn dilysu ac yn uwchgyfeirio pryderon.
4. Ymsefydlu/hyfforddiant yn amddiffyn preswylwyr.
5. Adeiladu diwylliant o fod yn agored a herio.

### Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – diogelu oedolion; cam-drin sefydliadol.
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) – pryderon darparwyr, uwchgyfeirio honiadau.
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – hyfforddiant, dyletswyddau adrodd.
- Gofal Cymdeithasol Cymru – Cod Ymarfer Proffesiynol – dyletswydd broffesiynol i ddiogelu.
- Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 – amddiffyniadau chwythu'r chwiban.